**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanllwni**
**Llanllwni**
**Pencader**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA39 9DX**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/03/2013**

## Cyd-destun

Lleolir yr Ysgol Wirfoddol Reoledig yr Eglwys yng Nghymru hon ym mhentref gwledig Llanllwni, ar y briffordd rhwng Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardaloedd cyfagos. Nid yw'r ardal lle lleolir yr ysgol yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae 29 disgybl, rhwng tair ac 11 oed, ar y gofrestr. Maent yn cynrychioli'r ystod lawn o allu ac mae eu cyraeddiadau yn amrywio tipyn pan ddechreuant yn yr ysgol. Derbynia'r ysgol ddisgyblion amser llawn ar ddechrau'r tymor y maent yn cyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae'r ysgol wedi dynodi naw disgybl (30%) fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r canran hwn yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Dynodir yr ysgol yn un 'categori A' yn ôl polisi iaith yr awdurdod lleol; golyga hyn mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Fe anelir at sicrhau bod pob disgybl yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Cymraeg yw'r brif iaith a siaredir yng nghartref tua 63% o'r disgyblion.

Addysgir y disgyblion mewn dau ddosbarth o oed cymysg gan ddau athro amser llawn ac un rhan amser. Apwyntiwyd y pennaeth presennol ym Medi 1995.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Chwefror 2007.

Gan fod yr ysgol yn Ysgol Wirfoddol Reoledig yr Eglwys yng Nghymru, fe fydd cydaddoli a datblygiad ysbrydol y disgyblion yn cael eu harolygu gan yr eglwys ym mis Chwefror 2013.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Llanllwni yn 2012-2013 yn golygu cyllideb o £4,162 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd awdurdod Caerfyrddin yw £25,997 a'r lleiafswm yw £2,878. Mae Ysgol Gynradd Llanllwni yn safle 30 o'r 108 ysgol gynradd yng Nghaerfyrddin o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- disgyblion yn cyflawni safonau da;
- disgyblion yn dangos cynnydd clir yn eu gallu i weithio'n annibynnol;
- disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at waith ysgol ac at ei gilydd;
- y disgyblion yn cael budd o gwricwlwm diddorol ac amrywiol;
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles disgyblion a'u datblygiad fel unigolion hapus a diogel;
- addysgu o ansawdd da gyda defnydd effeithiol o'r cymorthyddion; a bod
- arweiniad effeithiol ac ethos cynhwysol yr ysgol yn creu'r amodau gorau posibl i bob unigolyn ddatblygu a ffynnu.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth, staff a llywodraethwyr ymrwymiad i welliant parhaus;
- yr ysgol yn adnabod ei pherfformiad ei hun yn dda;
- cynllun gwella'r ysgol yn nodi blaenoriaethau clir a strategaethau addas ar gyfer gwella; a bod
- yr ysgol yn ymroi i ymgymryd yn frwdfrydig â datblygu arferion cydweithio effeithiol gyda nifer helaeth o bartneriaethau.

## Argymhellion

A1 Sicrhau mwy o gynnydd yng ngwaith disgyblion uwch eu gallu, yn enwedig mewn ysgrifennu

A2 Gwella taclusrwydd a llawysgrifen mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A3 Gwella medrau rhifedd disgyblion cyfnod allweddol 2 ar draws y cwricwlwm

A4 Gwella medrau hunanasesu'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Nid oes adroddiad data ar ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen gan fod nifer y disgyblion a aseswyd yn 2012 yn rhy fach i adrodd arnynt heb ddatgelu pwy oedd y disgyblion unigol.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, lefel 4 neu uwch, mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg. Yn y pynciau unigol, roedd cyrhaeddiad y disgyblion ym mhob pwnc hefyd yn uwch. Ar wahân i ganlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth yn 2010, mae canlyniadau'r ysgol dros amser yn tueddu i fod yn is na chyfartaledd ysgolion Cymru a chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 yn 2012 yn uwch nag ysgolion y teulu ac ysgolion Cymru ym mhob pwnc ar wahân i wyddoniaeth. Fodd bynnag, y tueddiad dros y pedair blynedd diwethaf yw bod y canlyniadau'n is.

Yn 2012, o gymharu ag ysgolion a lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl, roedd yr ysgol wedi ei gosod ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran dangosydd y pynciau craidd, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ond ymhlith y 50% isaf mewn Cymraeg. Amrywiol yw'r patrwm wedi bod ym mhob pwnc dros y pedair blynedd diwethaf.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol o gymharu perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 2.

Yn y gwersi, mae disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol ac yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn y nodau dysgu. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn wybodus a llwyddiannus. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gallu'r plant i weithio'n annibynnol yn nodwedd arwyddocaol. Wrth symud drwy gyfnod allweddol 2 maent yn parhau i feithrin eu hannibyniaeth. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol ar sail eu nodau dysgu penodol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ar lafar mewn ystod o sefyllfaoedd ac mae medrau'r disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n gyflym ac yn effeithiol iawn. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda ac yn ymateb a chyfrannu'n hyderus i drafodaeth. Mae medrau darllen cynnar llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un yn darllen i bwrpas ac yn dangos dealltwriaeth fanwl o'r testun. Defnyddiant ystod o strategaethau priodol yn llwyddiannus i fynd i'r afael â geirfa newydd. Gwna llawer o'r disgyblion gynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu. Maent yn dod yn gynyddol hyderus i ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio geirfa addas a diddorol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn siarad yn glir, gan gyfleu eu syniadau yn synhwyrol ac i bwrpas. Gwnânt hyn yn gynyddol hyderus yn Gymraeg a Saesneg. Maent wedi datblygu medrau darllen da yn Gymraeg a Saesneg; mae llawer yn darllen gyda rhuglder, cywirdeb a mynegiant da. Maent yn dod yn gynyddol gyfarwydd â defnyddio ffynonellau amrywiol yn bwrpasol i gywain gwybodaeth yn eu hastudiaethau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn dod yn gynyddol hyderus i ysgrifennu brawddegau clir sydd wedi'i eu hatalnodi'n gywir ac fe wneir defnydd priodol o brif nodweddion gwahanol ffurfiau ar ysgrifennu. Fodd bynnag, ychydig sydd yn ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith i safon dda. Nid yw disgyblion uwch eu gallu yn dangos medrau ysgrifennu mwy datblygedig yn gyson yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Yn gyffredinol, amrywiol yw safon taclusrwydd a llawysgrifen mwyafrif o ddisgyblion yn y gwahanol bynciau.

### Lles: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor a chymorth. Mae ymddygiad a hunanddisgyblaeth y rhan fwyaf yn dda ac maent yn dangos gofal a phryder amlwg am les ei gilydd. Mae'r rhan fwyf yn awyddus a brwdfrydig ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Mae eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw'n heini a bwyta'n iach yn amlwg.

Mae medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd y disgyblion yn datblygu'n dda ac maen nhw wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Drwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae ymwybyddiaeth gadarn ganddynt o'r ardal a'r gymuned leol.

Mae disgyblion sy'n aelodau o gyngor yr ysgol yn weithgar ac yn barod i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys ailgylchu, arbed ynni a threfnu digwyddiadau codi arian er budd yr ysgol ac achosion da. Maent yn cyfleu pwysigrwydd cyfrifoldebau o'r fath i ddisgyblion eraill yn llwyddiannus.

Lleiafrif o'r disgyblion sydd ar hyn o bryd â'r hyder a'r gallu i werthuso gwaith eu hunain a'u cyfoedion. Nid ydynt bob amser yn glir am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae lefelau presenoldeb yr ysgol yn 93%, sy'n cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Fodd bynnag, mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill, tebyg o ran cinio am ddim, bu'r ysgol yn y 25% isaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

### Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol a diddorol o brofiadau dysgu i'r disgyblion. Mae'r cynlluniau gwaith yn gynhwysfawr ac yn ymateb yn dda i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Mae'r defnydd o is-themâu yn ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus mewn sawl maes dysgu.

Mae cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a medrau meddwl yn cael lle amlwg o fewn y cynllunio. Er bod yr athrawon yn cynllunio gweithgareddau gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn diwallu anghenion y disgyblion uwch eu gallu, yn enwedig mewn gwaith ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae gor ddefnyddio taflenni gwaith hefyd yn cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da ac yn treiddio drwy holl waith yr ysgol. Rhoddir cyfleoedd amrywiol diddorol i'r disgyblion ddysgu am hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru ynghyd â chyfleoedd cyson i astudio'r ardal leol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau diddorol ym maes cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Anogir y disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol ac i chwarae rhan weithgar yn y gymuned leol ac o fewn y gymuned fyd-eang. Rhoddir profiadau gwerthfawr i ddisgyblion gasglu at elusennau, ailgylchu, defnyddio llai o ynni, a dysgu am nwyddau masnach deg. Mae'r profiadau hyn wedi cryfhau eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd eang.

**Addysgu: Da**

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac mae'r berthynas gynnes rhyngddynt a'r disgyblion yn annog parch a chwrteisi. Mae'r addysgu'n gyson dda yn y ddau ddosbarth a defnyddia'r athrawon amrywiaeth o ddulliau dysgu i ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Mae'r gwersi wedi eu cynllunio'n dda, er nad yw'r disgwyliadau bob amser yn ddigon heriol i'r plant hŷn ac uwch eu gallu.

Defnyddia'r athrawon ystod o adnoddau yn bwrpasol a llwyddiannus i gefnogi dysgu ac addysgu. Defnyddiant y cymhorthydd dysgu yn effeithiol i roi cymorth priodol i ddisgyblion a'u harwain yn ofalus at gwblhau eu tasgau.

Ar y cyfan, caiff cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol ei dracio'n effeithiol er mwyn adnabod tangyflawni ac i ddarparu'r cymorth ychwanegol angenrheidiol. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r systemau asesu yn briodol wrth gynllunio gwaith pellach. Fodd bynnag, nid yw tracio cynnydd a dilyniant yn ddigon cadarn mewn rhifedd.

Derbynia'r disgyblion adborth llafar adeiladol ar eu hymdrechion. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ond nid yw'r sylwadau yn rhoi digon o sylw i'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Nid oes chwaith gyfleoedd cyson i ddisgyblion asesu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda yn rheolaidd am gynnydd eu plant ac mae'r adroddiadau blynyddol yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i hyrwyddo iechyd, pwysigrwydd cadw'n heini a diogelwch personol. Fe gyflawnir hyn yn llwyddiannus mewn gwersi ac mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Rhoddir sylw arbennig i anghenion personol, emosiynol ac addysgol y disgyblion. Mae darpariaeth werthfawr ar gyfer datblygiad moesol disgyblion mewn sesiynau addoli, amser cylch ac yn ystod y gwersi ac mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar wasanaeth yr heddlu, nyrs yr ysgol a'r eglwys leol. Mae'r asiantaethau a'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion yn ôl yr angen ac yn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion lles.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn cwrdd â gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i adnabod anghenion dysgu ychwanegol sy'n cydymffurfio â'r Côd Ymarfer. Maent yn adnabod anghenion gwahanol ddisgyblion yn fuan ac yn gweithredu'n brydlon a phwrpasol. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir a gweithgareddau penodol ar gyfer sicrhau cynnydd. Mae aelodau'r staff yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar sy'n meithrin agweddau cadarnhaol a darparu cyfleoedd cyfartal priodol. Mae'r ethos hapus a chyfeillgar yn sicrhau bod pawb yn cyd-dynnu a chydweithio'n dda. Mae'r ysgol yn delio yn sensitif ac effeithiol ag achosion o ymddygiad heriol pan fo'r angen.

Caiff pob disgybl yr un cyfleoedd a mynediad i'r cwricwlwm ac fe berchir amrywiaeth gallu a diddordeb pob disgybl. Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy waith amrywiol wrth astudio gwledydd tramor.

Mae'r ystafelloedd dosbarth yn darparu gofod dysgu priodol a gwna'r ysgol y defnydd gorau ohonynt ynghyd â'r tir prin o amgylch. Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau yn addas ac yn adlewyrchu gwaith y disgyblion a gweithgareddau ehangach yr ysgol yn bwrpasol.

Mae'r gofod allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddefnyddio'n greadigol i hybu dysgu. Fe fanteisir yn llawn, pan fo'r tywydd yn caniatáu, ar faes chwarae'r pentref i gynnal gweithgareddau chwaraeon amrywiol.

Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer chwarae a dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad clir a phwrpasol sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad yr ysgol. Rhennir gweledigaeth am gyfeiriad yr ysgol yn llwyddiannus gydag aelodau'r staff a'r llywodraethwyr. Mae aelodau eraill y staff yn cefnogi'r

pennaeth yn dda ac maent yn ymgymryd â nifer o gyfrifoldebau'r sy'n arwain at wella safonau a lles y disgyblion.

Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd i greu ethos cartrefol ar gyfer y disgyblion. Mae gan yr ysgol ystod eang o weithdrefnau a pholisïau priodol.

Llwydda'r ysgol i roi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol drwy hyrwyddo pwysigrwydd llythrennedd, dwyieithrwydd a datblygu cymunedau dysgu proffesiynol lwyddiannus.

Mae gan y corff llywodraethol rôl bwysig yn natblygiad yr ysgol ac mae'r ysgol yn elwa o arbenigeddau nifer o'r aelodau. Maent yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth ac yn ymwybodol o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn cael rhan flaenllaw yn y broses hunanarfarnu ac mae eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau clir wedi eu sefydlu i adolygu holl waith yr ysgol dros gylch amser. Mae'r gyfundrefn hunanarfarnu yn rhoi sylw amlwg i ddadansoddi data a deilliannau gweithdrefnau monitro. Rhoddir ystyriaeth lawn i arfarniadau parhaus ac i farn y disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Caiff aelodau'r staff gyfleoedd cyson i gyfrannu i'r broses.

Mae cysylltiad amlwg rhwng canfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau yn y cynllun gwella'r ysgol. Mae gwella medrau llythrennedd, rhifedd a herio'r disgyblion uwch eu gallu wedi eu blaenoriaethu yn glir yn y cynllun. Mae strategaethau addas i sicrhau'r gwelliannau hyn sy'n cynnwys pennu cyfrifoldeb arweiniol, a dangosyddion llwyddiant, ynghyd ag amserlenni penodol a'r adnoddau angenrheidiol.

Mae'r ysgol yn datblygu fel cymuned ddysgu broffesiynol yn llwyddiannus ac mae cyfleoedd niferus i aelodau'r staff ddiweddaru eu medrau. Mae pawb yn elwa o'r profiadau hyn ac fe welir yr effaith yn y gwelliannau mae'r ysgol wedi eu cyflawni yn barod i wella safonau llythrennedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad disgyblion.

Ceir partneriaeth gadarn gyda rhieni. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu'n frwdfrydig tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol.

Mae perthynas dda gyda'r cylch Ti a Fi. Cynhaliwyd gweithdai iaith a rhifedd i wella dealltwriaeth y rhieni o ddulliau addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r gweithgareddau hyn wedi llwyddo i gryfhau'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol ac ymglymu'r rhieni yn y broses o gynnal a gwella safonau.

Mae'r bartneriaeth effeithlon gyda'r Cylch Meithrin yn sicrhau cyd-rannu priodol o ran adnoddau ac yn paratoi'r plant yn addas ar gyfer eu hamser llawn yn yr ysgol.

Mae cysylltiadau niferus â'r gymuned leol ac mae hyn yn cael dylanwad helaeth ar y profiadau dysgu. Mae'r ysgol yn elwa yn ariannol o sawl ffynhonnell gymunedol a defnyddir yr arian yn greadigol er lles y disgyblion.

Mae partneriaeth strategol effeithiol iawn gydag ysgolion y dalgylch. Mae cydweithio diweddar wedi canolbwyntio ar strategaethau llythrennedd ac mae safonau darllen, ysgrifennu, sillafu a chyfathrebu'r disgyblion wedi gwella. Ceir partneriaeth lwyddiannus hefyd gyda'r ysgolion uwchradd lleol ac mae'r trefniadau pontio yn effeithiol i sicrhau trosglwyddo esmwyth.

Mae gweithgareddau safoni a chymedroli rhwng ysgolion wedi bod yn llwyddiannus ac wedi cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr athrawon gymwysterau priodol i ddysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r arferiad o gyfnewid athrawon rhwng y ddau ddosbarth yn manteisio'n llawn ar arbenigedd staff mewn addysg gorfforol, addysg bersonol a chymdeithasol, addysg grefyddol a cherddoriaeth. Caiff hyn ddylanwad amlwg ar safonau.

Caiff pob un o'r staff perthnasol yr amser gofynnol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu, a defnyddir hyn yn briodol. Fe reolir y defnydd o'r staff ategol yn effeithiol iawn.

Mae trefniadau priodol yn weithredol ar gyfer rheoli perfformiad yr athrawon ond nid oes trefniadau ffurfiol ar gyfer y staff ategol.

Fe reolir adnoddau yn ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus. Dosrannir arian yn briodol ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, darpariaeth ac ansawdd y profiadau.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Nid oes adroddiad data ar ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen gan fod nifer y disgyblion a aseswyd yn 2012 yn rhy fach i adrodd arnynt heb ddatgelu pwy oedd y disgyblion unigol.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012, mae canran y disgyblion sy’n cyflawni’r lefel ddisgwyliedig, lefel 4 neu uwch, mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru a’r teulu o ysgolion tebyg. Yn y pynciau unigol, roedd cyrhaeddiad y disgyblion ym mhob pwnc hefyd yn uwch. Ar wahân i ganlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth yn 2010, mae canlyniadau’r ysgol dros amser yn tueddu i fod yn is na chyfartaledd ysgolion Cymru a chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg.

Mae canran y disgyblion sy’n cyflawni lefel 5 yn 2012 yn uwch nag ysgolion y teulu ac ysgolion Cymru ym mhob pwnc ar wahân i wyddoniaeth. Fodd bynnag, y tueddiad dros y bedair blynedd diwethaf yw fod y canlyniadau’n is.

Yn 2012, o gymharu ag ysgolion a lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl, roedd yr ysgol wedi ei gosod ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran dangosydd y pynciau craidd, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ond ymhlith y 50% isaf mewn Cymraeg. Amrywiol yw’r patrwm wedi bod dros y bedair blynedd diwethaf.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol o gymharu perfformiad bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen nac ychwaith yng nghyfnod allweddol 2.

Mae’r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni’n dda ac yn gwneud cynnydd da yn unol â’u gallu.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr**

Derbyniwyd 12 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr. Mae lefel bodlonrwydd rhieni yn uchel, ac yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae bob rhiant yn datgan eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol a bod eu plant yn ddiogel ynddi. Teimlai pawb bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth gychwyn yn yr ysgol. Mae pob un hefyd yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod y disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg ac yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau.

Mae bob rhiant yn teimlo bod yr addysgu yn y dosbarthiadau yn dda a bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol. Teimlant fod yna amrywiaeth dda o weithgareddau a bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn gyson.

Mae pob rhiant yn dweud bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Mae pawb yn datgan eu bod yn deall trefniadau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Mae bron pob rhiant o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â chodi unrhyw fater.

**Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion**

Llenwyd yr holiaduron gan 17 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae pob disgybl yn dweud bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd a'u bod yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae pob un yn gwybod pwy i droi ato os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Maent i gyd yn dweud bod llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd a bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn gwneud yn dda yn eu gwaith. Teimlant fod yna ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron iddynt wneud eu gwaith.

Mae'r lefel bodlonrwydd yn cymharu'n dda â chyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd ac eithrio bod ychydig yn teimlo nad yw'r ysgol yn delio'n dda â bwlio ac nad yw plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Temlai ychydig hefyd nad yw plant yn ymddwyn yn dda bob amser fel y gallant wneud eu gwaith.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Ruth Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| Ann Fox | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nans Davies | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.